Animal & Plant Health Agency

# Yr Uned Wenyn Genedlaethol

## Gwenyn Unig

### Ionawr 2022

**Mae tua 267 o rywogaethau o wenyn yn y DU sy'n perthyn i gategori nythfeydd cymdeithasol neu wenyn unig. Mae nythfeydd cymdeithasol, megis gwenyn mêl a chacwn, yn byw gydag un frenhines atgenhedlol, gwenyn gormes (gwryw) a gwenyn gweithgar benyw sy'n mynd allan i gasglu neithdar a phaill ac yn trefnu'r gwaith o adeiladu'r nyth. Mae tua 200 o rywogaethau o wenyn unig ac mae pob rhywogaeth yn bwysig ar gyfer peillio ond, o ganlyniad i ffermio amaethyddol a threfoli dwys, mae colli cynefinoedd wedi arwain at leihad mewn niferoedd gwenyn.**

### Cylch Oes Gwenynen Unig

Yn gyffredinol, bydd oes gwenynen unig yn dechrau yn y gwanwyn pan fydd y gwenyn llawndwf yn ymddangos o'r safle nythu. Fel arfer, y gwrywod fydd yn ymddangos gyntaf, a byddant yn ymgynnull y tu allan i'r tyllau mynedfa, yn aros am y benywod. Byddant yn paru a bydd y benywod yn gadael i chwilio am safleoedd nythu newydd. Yn dibynnu ar y rhywogaeth, gall y safleoedd hyn amrywio o gregyn malwod, tyllau pryfed pren, tyllau chwilod, coesynnau planhigion gwag, tyllau wedi'u tyrchu yn y ddaear neu mewn waliau a chlogwyni. Wedyn, bydd y fenyw yn casglu paill ac yn dodwy un wy cyn selio'r siambr. Bydd y safleoedd nythu'n amrywio'n sylweddol, a bydd y benywod llawndwf yn byw am ychydig dros fis, gan ddodwy tua 20 o wyau. Bydd yr wyau'n datblygu'n larfâu ac yn aros yn y cocŵn drwy'r haf a'r gaeaf lle y byddant, ymhen amser, yn chwilera ac yn ymddangos y gwanwyn canlynol.

Weithiau, bydd llawer o wenyn unig yn nythu mewn un ardal, a gall nifer y gwenyn sy'n hedfan o amgylch y 'pentrefi' hyn fod yn eithaf brawychus. Nid yw gwenyn unig yn amddiffynnol o'u safleoedd nythu a dim ond os cânt eu cam-drin neu eu gwasgu y byddant yn pigo. Dim ond gwenyn unig benywaidd sydd â cholyn, ond nid oes llawer o wenwyn ynddo ac, fel arfer, bydd ond yn arwain at ychydig o gochni o amgylch safle'r pigiad. Annisgwyl yw'r pigiad, yn hytrach na phoenus, a'r ffordd orau o osgoi cael eich pigo yw sicrhau bod plant yn gwisgo esgidiau ger safleoedd nythu ac, yn ddelfrydol, eu hannog i beidio â tharfu ar y gwenyn, a'u gwylio o bellter. Os gwnânt hynny, gallant weld paill yn cael ei gludo'n ôl i'r safleoedd nythu, naill ai ar ochr isaf yr abdomen neu yn y peillgodau ar eu coesau ôl. Fel arfer, dim ond am gyfnod byr y bydd gwenyn unig i'w gweld yn symud o amgylch y safle nythu oherwydd eu hoes fer.

I ddenu gwenyn unig, gellir creu nythod allan o wiail wedi'u torri'n ffyn tua 6–8 modfedd o hyd, fel bod y cygnau'n gweithredu fel topyn ar un pen. Wedyn, gellir bwndelu'r rhain ynghyd a'u gosod mewn strwythur silindraidd fel darn byr o beipen ddŵr a'i hongian ar ochr ffens neu sied sy'n wynebu tua'r de. Mae gwenyn unig fel y saerwenynen goch yn gyffredin iawn ac os byddwch yn paratoi'r nyth ym mis Mawrth, mae'n bosibl y bydd gwenyn wedi dechrau nythu yn y gwiail erbyn i'r coed afalau ddechrau blodeuo.

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am wenyn unig, neu unrhyw rywogaethau eraill o wenyn, efallai y bydd y wefan hon yn ddefnyddiol: Y Gymdeithas Cofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug (www.bwars.com)

**National Bee Unit**
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ
Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk